

CYFARFOD	Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd)
DYDDIAD	14 Mehefin 2019
TEITL	Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019
PWRPAS	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none">• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2018/19, a• Ffurflen Swyddogol Flynyddol o'r Cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad
GWEITHREDIAD	Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon
AWDUR	Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid, Cyngor Gwynedd

1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

- 1.1 Fel adroddwyd mewn blynyddoedd a fu, mae gofynion adrodd penodol ar gyfer cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.
- 1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.
- 1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar gyllid y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn).
- 1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn llai na £2.5m, ystyrir y cyd-bwyllgor yn "gyd-bwyllgor llai o faint" a rhaid paratoi'r cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol gan ddilyn arferion priodol yn unol â'r ddeddfwriaeth.
- 1.6 Bydd y Ffurflen Flynyddol o'r Cyfrifon yn destun archwiliad ar wahân gan archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd.

2. CYFRIFON 2018/19

- 2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2018/19 yma fel Atodiad A** ar ffurf adroddiad “alldro” syml.
- 2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Ffurflen Swyddogol Flynyddol am 2018/19 (cyn archwiliad), wedi'i gwblhau a'i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dafydd L Edwards) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.**
- 2.3 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad buan gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i'r Cyd-Bwyllgor ar 6 Medi 2019.
- 2.4 Ar ôl archwiliad ac yn dilyn unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen cyn 15 Medi.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 **Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau, sef –**
 - Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2018/19 – Atodiad A
 - Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2019 (Amodol ar Archwiliad) – Atodiad B